

## Neuadd Pantycelyn Prifysgol Aberystwyth



### Prif Ffeithiau

Cwsmer: Prifysgol Aberystwyth

Gwerth: £15.5m

Pensaer: Lawry Architects

Rheolwr Prosiect: Aecom

Peiriannydd: ARUP

Contract: JCT 2016 D&B

Hyd: 65 weeks

Cwblhawyd: 11/09/2020

Cwmpas:

- Adnewyddu'r adeilad Rhestredig presennol gan greu 6559m<sup>2</sup> o gyfleusterau newydd
- Campws addysg fyw
- 198 o ystafelloedd en-suite gyda mynediad WIFI
- Cyfleusterau arlwy a golchi dillad ar y safles

### Trosolwg

Gofyniad Cyngor Prifysgol Aberystwyth oedd y byddai'r gwaith o adnewyddu Pantycelyn yn darparu "llety a manau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg addas ar gyfer y dyfodol" a fyddai'n "ddigonol am 40 mlynedd".

Nod y prosiect uchelgeisiol hwn yw gwella'r adeilad rhestredig Gradd II eiconig hwn fel bod modd ei ddefnyddio eto a'i ailsefydlu fel canolbwynt i Gampws Penglais Prifysgol Aberystwyth.

Neuadd Pantycelyn oedd un o'r adeiladau cyntaf i gael ei adeiladu ar y safle, a brynwyd gan Brifysgol Aberystwyth yn 1929.

Y pensaer Syr Percy Thomas oedd yn gyfrifol am y cynllun ac enwyd y neuadd ar ôl y bardd, emynydd a diwygiwr Cymraeg o'r ddeunawfed ganrif, William Williams Pantycelyn.

Yn ddiweddarach, gwasanaethodd Pantycelyn fel neuadd Gymraeg y Brifysgol o 1974, a bu'r Tywysog Charles yn byw yno pan oedd yn fyfyrwr yn 1969.

Bydd y prosiect yn darparu cyfleusterau llety en-suite modern, o safon uchel, i 200 o fyfyrwyr mewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg.

### Ennill prosiect

Mae Morgan Sindall Construction wedi'i benodi gan Brifysgol Aberystwyth i adnewyddu neuadd myfyrwyr enwog Pantycelyn, prosiect gwerth £16.5 miliwn. Mae i'r neuadd hanesyddol orffennol disglair yn rhychwantu bron i saith degawd. Fe'i hagarwyd gyntaf yn 1951, roedd yn gartref i'r Tywysog Charles yn ystod ei gyfnod yn fyfyrwr yn Aberystwyth ac mae wedi bod yn neuadd Gymraeg bwrpasol er 1973. Oherwydd ei harwyddocâd fel ased treftadaeth cenedlaethol a'i chymuned bwysig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi gweledigaeth y Brifysgol i adfer yr adeilad, gan glustnodi £5 miliwn tuag at gost y gwaith drwy ei Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Dyfarwyd y prosiect uchel ei broffil hwn i Morgan Sindall Construction drwy Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De a Chanolbarth Cymru (SEWSCAP), y bu ganddo le arno ers bron i ddegawd. Mae'r cynlluniau i adfer yr adeilad uchel ei broffil yn cynnwys gwaith adnewyddu allanol sensitif, ynghyd ag adnewyddu mewnol ar draws 70,000 tr sg. Bydd y prosiect yn creu ystafelloedd gwely en-suite cyfoes, gyda mynediad cyflym i'r rhyngwyd ar gyfer hyd at 200 o fyfyrwyr. Yn ogystal â chyfleusterau arlwy a golchi dillad cymunedol, bydd yna fannau astudio a hamdden at ddefnydd y myfyrwyr a'r gymuned lleol. Disgwyllir i'r gwaith adeiladu ddechrau ar 3 Mehefin 2019 a bydd yn cael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd yn 2020.

Ymunodd uwch staff o'r Brifysgol a chynrychiolwyr o Fwrdd Prosiect Pantycelyn ag aelodau o dîm prosiect Morgan Sindall i nodi'r achlysur ym Mhantycelyn ddydd Gwener 24 Mai 2019. Dywedodd Rob Williams, cyfarwyddwr ardal Morgan Sindall Construction: "*Rydyn ni'n hynod falch o fod yn gweithio gyda'r Brifysgol fel ei phartner adeiladu ar brosiect mor nodedig. Mae pawb sy'n ymwneud â'r prosiect yn ymwybodol o bwysigrwydd Pantycelyn, o ran ei hanes a'r rôl y gall ei chwarae yn meithrin cenedlaethau'r dyfodol o fyfyrwyr brwd Cymraeg eu hiaith. Byddwn yn gweithio'n agos ac yn fanwl gyda'r Brifysgol i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau'n sensitif ac mewn pryd i'r neuadd ailagor yn 2020.*"

## Cwmpas y gwaith

**Dywedd yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth:** "Rydym wrth ein bodd ein bod yn gweithio gyda Morgan Sindall Construction ar ailddatblygu Pantycelyn, ac i ddod â neuadd a fu'n ganolbwynt i ddiwylliant Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth yn fyw unwaith eto am bron i hanner canrif. Mae'r prosiect hwn yn fuddsoddiad yn nyfodol myfyrwyr Cymraeg eu hiaith am genedlaethau i ddod ac yn ychwanegiad unigryw i'r portffolio rhagorol o lety myfyrwyr a gynigiwn yma yn Aberystwyth. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ei chefnogaeth i'r prosiect, a fydd yn helpu i wella'r profiad rhagorol i fyfyrwyr a gynigir gan Aberystwyth."

Briff y prosiect oedd adnewyddu ac adfer Neuadd Breswyl Pantycelyn ar gyfer Prifysgol Aberystwyth - neuadd a fu'n wag yn y blynyddoedd diwethaf. Gyda Neuadd Pantycelyn yn cael ei rhestru fel adeilad Gradd II, roedd rhai agweddau ar yr adeilad a oedd yn cael eu gwarchod i sicrhau bod arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol yr adeilad yn cael ei gadw. Felly, cafodd y rhan fwyaf o amlen yr adeilad ei chadw fel yr oedd yn wreiddiol.

Gosodwyd ffenestri newydd tebyg yn yr holl ystafelloedd gwely newydd, gyda gwteri newydd a rhywfaint o waith atgyweirio ar y to i sicrhau bod yr adeilad yn dal dŵr. Y tu mewn, cafodd yr adeilad ei glirio'n llwyr a'i ddimchwel, gyda 198 o ystafelloedd gwely En-suite yn cael eu

gosod. Cafodd rhai o'r elfennau gwreiddiol, fel y llawr parquet, y nenfydau rhestredig a'r grisiau teraso, eu hadnewyddu i gadw rhai o nodweddion yr adeilad fel yr oedd.

Dros y 15 mis diwethaf, mae'r adeilad wedi mynd o fod yn adeilad adfeiliedig, wedi'i esgeuluso a heb neb yn byw ynddo, i adeilad gweithredol sydd wedi'i adnewyddu'n llwyr ar gyfer Prifysgol Aberystwyth. Gan fod yr adeilad o bwysigrwydd gwleidyddol enfawr i'r ardal leol, mae'r holl randdeiliaid wrth eu bodd bod modd adfer yr adeilad hwn i'r hyn ydoedd cynt. Cynhaliwyd arolwg cymylau pwyntiau o'r adeilad er mwyn deall y cyfyngiadau geometrig a helpu i gydlynu'r dyluniadau a ystyriwyd..

## Amgylchedd Byw

Saif Neuadd Pantycelyn ar gampws Prifysgol Aberystwyth. Felly, cyn gwneud unrhyw waith, roedd yn hanfodol bod ffin y safle'n gwbl ddiogel gydag arwyddion adeiladu perthnasol yn eu lle. Un o'r heriau oedd llwybr cerdded i'r brifysgol a oedd yn rhedeg drwy ein prosiect. I oresgyn hyn, darparwyd arwyddion clir ar y llwybr yn nodi ei fod wedi cau, ynghyd ag arwyddion dargyfeirio i ddarparu llwybr diogel o amgylch y safle adeiladu. Codwyd y mater hwn ar y cam cyn adeiladu, a oedd yn galluogi'r brifysgol i roi gwybod i'r myfyrwyr bod yr ardal a'r llwybr troed yn cael eu cau drwy gydol y prosiect.

Roedd i leoliad y prosiect ei heriau ei hun hefyd. Roedd hi'n anoddach cael deunyddiau i'r safle gan mai ychydig iawn o ddsbarthwyr oedd yn yr ardal leol. Roedd y dosbarthwyr yn amharod iawn i ddanfôn eitemau bach gan nad oedd hynny er eu budd nhw. Hefyd, roedd dweud ymlaen llaw wrth bob un o'r is-gontractwyr pryd y byddai eu hangen yn her ychwanegol. Gyda bron pob is-gontractwr yn gweithio oddi cartref, roedd yn hanfodol bod gennym ddigon o waith ar gyfer pob un o'r crefftiau er mwyn iddynt allu trefnu eu llety yn unol â hynny. Llwyddwyd i oresgyn hyn drwy sicrhau ein bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r is-gontractwyr i drafod y gwaith y rhagwelid y byddai ar gael. Yn anffodus, roedd hi'n anodd goresgyn yr anawsterau o ran danfôn deunyddiau, cyfnewid sgipiau ayb.



## Lleihau'r tarfu

Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y brifysgol yn ystod ein gwaith, roedd ein holl ddarpariaeth gwaith wedi'i lleoli o fewn ffin ein safle. Roedd hyn yn cynnwys y cyfleusterau lles, storio gwastraff a pharcio ceir. Roedd yr holl ddanfoniadau a llwybrau'r safle drwy ein mynedfa a'n ffordd ni ein hunain, a oedd yn atal unrhyw aflonyddu ar y Brifysgol. Roedd ein safle wedi'i wahanu'n llwyr oddi wrth y Brifysgol a'r Cyhoedd.

## Cynllunio, gwaith fesul cam a chlrïo

Camau cyffredinol y prosiect oedd cwblhau a throsglwyddo'r ail lawr, yna'r cyntaf, y mesanîn ac, yn olaf, y llawr gwaelod. Roedd hyn yn caniatáu i'r lloriau uchaf gael eu cwblhau'n gynharach a oedd yn rhoi cyfle i'r cleient ddodrefnu rhai o'r

ystafelloedd gwely yn gynharach. Unwaith yr oedd y lloriau uchaf wedi'u cwblhau, roeddent dan glo ac yn ddiogel i atal unrhyw fynediad heb awdurdod er mwyn darparu man gweithio diogel i'r cleient petai'n dymuno dodrefnu'r adeilad yn gynt.

Un o'r heriau oedd y gwaith i osod a thynnu ein safle ni. Oherwydd prinder lle ar y safle, ar y dechrau roeddem yn defnyddio'r adeilad presennol ar gyfer ein cyfleusterau lles, ein ffreutur a'n swyddfeydd. Fodd bynnag, ar ôl i ni ddechrau gweithio yn y rhannau hyn o'r adeilad, cafodd cabanau safle eu glanio ar faes parcio'r safle i ddarparu'r cyfleusterau hyn. Felly, roedd yn rhaid cydlynu'r gwaith er mwyn cwblhau'r gwaith yn y maes parcio cyn i'r cabanau lanio a sicrhau bod yr ystafelloedd yn yr adeilad yn cael eu clirio mewn pryd er mwyn gallu cwblhau'r gwaith yno.

## Cynaliadwyedd

Roedd cyflawni'r gofynion adeiledd gyda deunyddiau priodol yn arbennig o heriol oherwydd y cyfyngiadau gofodol. Gwthiodd hyn ni i edrych ar ddefnyddio deunyddiau a allai gyflawni nifer o nodau e.e. plastrfwrdd vcl wedi'i inswleiddio, blancedi inswleiddio vcl ac ati. Datblygwyd y cynllun goleuadau allanol i fod yn ystyriol o fywyd gwyllt lleol.



## Rheoli'r rhaglen

Mae'r rhaglen adeiladu'n cael ei monitro'n ddyddiol ac yna'n cael ei hadolygu ar ddiwedd pob wythnos waith. Caiff y rhaglen ei hadolygu ar nos lau i roi cyfle i ni ystyried a oes angen gwneud gwaith dros y penwythnos er mwyn aros ar yr amserlen. O'r adolygiadau wythnosol o'r rhaglen, rydym yn gwneud rhagolwg bob pythefnos i weld a ydym yn dal ar y trywydd iawn i daro dyddiadau allweddol. Caiff y rhaglen ei diweddarau'n wythnosol gan Dale Harris a'i throsglwyddo i Gary Owens i'w hadolygu. Rhoddir gwybod i'r cleient hefyd am y rhaglen yn ystod y cyfarfodydd misol ag ef ar y safle.

Ar y prosiect hwn, rydym wedi wynebu oedi gyda'n rhaglen. Cyfrifoldeb Morgan Sindall oedd rhai o'r achosion hynny, a'r cleient yn gyfrifol am eraill. Gwnaed ceisiadau llwyddiannus am dri Estyniad Amser o ganlyniad i waith a sefyllfaoedd a oedd y tu allan i'n gwaith contract. Roedd yr Estyniad Amser cyntaf ar gyfer gwaith

llenwi dwfn y lloriau presennol gyda'r gwaith adfer a oedd yn ofynnol i'r waliau presennol. I oresgyn hyn, roedd yn rhaid i ni gyflogi rhagor o osodwyr lloriau ac addurnwyr i weithio ymlaen i gwblhau'r gwaith gwneud iawn perthnasol er mwyn gallu cwblhau'r gwaith contract yn unol â'r amserlen. O ganlyniad, cafodd y rhaglen ei hymestyn oherwydd yr effaith ar y llwybr critigol.

Yn ail, daethpwyd o hyd i ragor o asbestos yn ystod ein gwaith. Nes i'r sampl gael ei ddyfarnu'r bositif a'i symud yn ddiogel o'r safle, nid oeddem yn gallu symud ymlaen mewn un rhan o'r adeilad.

Yn olaf, fel pob prosiect, roedd COVID-19 wedi achosi oedi i'n rhaglen. Fe wnaethom liniaru hyn drwy aros ar agor yn ystod y cyfnod hwn a rhoi canllawiau llym ar waith i sicrhau bod y safle'n ddiogel i weithio arno. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at y canllawiau a oedd ar

waith, ni allem ddarparu mwyach ar gyfer y gweithlu llawn ar y safle. Felly, gostyngodd y nifer ar ein safle o tua 100 i 40.

Er bod yr Estyniadau Amser wedi'u caniatáu, roeddent yn achosi problemau i'r cleient gan fod ein gwaith wedyn yn ymestyn ymhellach ond roedd y dyddiad symud myfyrwyr i mewn yn dal yr un fath. Felly, roedd gan y cleient lai o amser i ddodrefnu, tarmacio a phaentio llinellau gwyn ar y tu allan. Er mwyn goresgyn hyn, boom yn cysylltu â'r cleient a'i is-gontractwyr perthnasol er mwyn iddynt weithio ar ein prosiect cyn y Cwblhau Ymarferol. Roedd hyn wedyn yn caniatáu i'r cleient wneud ei waith mewn pryd cyn i'r myfyrwyr symud i mewn i'r adeilad.

Yn gyffredinol, trosglwyddwyd yr adeilad ar amser a chwblhaodd y cleient ei waith perthnasol mewn pryd cyn i'r adeilad gael ei ddefnyddio.

## Dull partneru a chydweithio

Defnyddiwyd sawl offeryn cydweithio i sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei gyflawni'n berffaith.

- Yn weithredol, cynhaliwyd sesiwn cynllunio ar y cyd yn swyddfa Morgan Sindall gyda'r prif is-gontractwyr. Roedd hyn yn golygu bod modd cytuno'n gynnar ar drafodaethau a'r dilyniant gorau o ran trefnu'r gwaith er mwyn i'r broses adeiladu allu mynd rhagddi'n ddidrafferth. Roedd hefyd yn caniatáu i unrhyw broblemau posibl gael eu codi'n ddigon buan fel y gellid eu datrys cyn dechrau ar y safle. Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol ar y safle gyda holl oruchwylwyr y safle i sicrhau bod y gwaith a oedd yn cael ei wneud yn adlewyrchu'r hyn y cytunwyd arno ar y cam cydweithio.

- Roedd y prosiect hefyd yn defnyddio Viewpoint, sy'n galluogi'r holl randdeiliaid i weithio ar sail y lluniadau dylunio cymeradwy diweddaraf fel nad oedd unrhyw wrth-ddweud o ran gwybodaeth am y gwaith. Roedd gan yr holl randdeiliaid fynediad at Viewpoint sy'n golygu bod modd cael gafael ar y wybodaeth unrhyw bryd er hwylustod.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r cleient yn fisol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y prosiect. Roedd y cyfarfodydd hyn yn rhoi sylw i raglen y prosiect, materion dylunio, cofrestr risg ac unrhyw faterion eraill yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Golygai hyn fod modd codi materion a'u datrys yn gyflym heb effeithio ar

gynnydd y prosiect.

- Hefyd, roedd Andrew Thomas o'r Brifysgol ar y safle'n rheolaidd i adolygu'r cynnydd ar y safle a darparu unrhyw adborth neu bryderon gan y cleient



## Arloesi

Yn ystod camau dymchwel y prosiect, roedd monitorau llwch a sŵn wedi'u lleoli drwy'r adeilad i gyd. Roedd y monitor sŵn yn gweithio ar system goleuadau traffig, lle gallai gweithwyr a oedd yn gweithio yn yr ardal weld â'u llygaid a oedd lefelau'r sŵn yn uwch na'r terfynau sŵn a ganiateir. Os oedd y golau traffig yn wyrrd, yna roedd yr ardal yn ddiogel heb amddiffyniad clyw. Os oedd y golau'n oren, roedd yn dangos eich bod yn cael eich cynghori i amddiffyn eich clyw. Pan oedd y golau traffig yn goch, roedd yn dangos bod angen amddiffyn y clyw wrth weithio yn yr ardal honno. Roedd y monitorau llwch yn gweithio ychydig yn wahanol i'r monitorau sŵn. Roedd gan y monitorau llwch synhwyrdd, ac os oedd lefel y llwch yn yr ardal honno'n uwch na lefel benodol, roedd neges e-bost neu neges destun yn cael ei hanfon at reolwr y safle a'r goruchwyliwr perthnasol. Roedd hyn wedyn yn caniatáu i'r goruchwyliwr

adolygu a oedd y dulliau atal llwch yn gweithredu'n gywir ac, os felly, a oedd angen rhagor o fesurau atal llwch ar gyfer yr ardal honno.

Elfen arloesol arall a ddefnyddiwyd yn Neuadd Pantycelyn oedd defnyddio tagiau sgaffald electronig. Roedd y tagiau wedi'u lleoli ar bwyntiau mynediad y sgaffaldiau ac roeddent yn nodi'n glir a oedd y sgaffaldiau o fewn y dyddiad a ganiateid gan yr archwiliad diweddaraf ac yn ddiogel i weithio arnynt. Nodent fanyleb y sgaffaldiau a osodwyd, cyflymder y gwynt a'r amserlen ar gyfer yr arolygiad nesaf. Mae modd gweld yr holl dagiau electronig hyn ar borth ar-lein, sy'n caniatáu i chi weld yr holl dagiau sgaffald o'ch ffôn neu'ch cyfrifiadur. Mae hyn wedyn yn arbed i chi archwilio'r holl dagiau sgaffald yn unigol o amgylch y safle.

## Iechyd a Diogelwch

Roedd nifer o ffactorau a oedd yn sicrhau amgylchedd diogel 100%.

- Dechreuodd hyn o'r cyfarfodydd cyn dechrau gydag is-gontractwyr i sicrhau bod yr holl fesurau iechyd a diogelwch ar waith ac y byddid yn cadw atynt ar y safle.
- Er bod asbestos wedi cael ei dynnu o'r adeilad cyn dechrau, roedd hyfforddiant ymwybyddiaeth asbestos yn orfodol i rai is-gontractwyr.
- Roedd y ffos gwasanaethau bresennol wedi'i lleoli o dan y ddaear ac yn cael ei hystyried yn fan cyfyng. Felly, roedd yn rhaid i unrhyw un yr oedd angen iddo weithio yn y ffos gwasanaethau ddarparu tystiolaeth ei fod wedi cwblhau hyfforddiant manau cyfyng.
- Roedd monitorau llwch a sŵn wedi'u lleoli ar draws safle'r adeilad er mwyn rhoi ymwybyddiaeth i bawb ar y safle.
- Hefyd, fe gwblhawyd adroddiadau amser real am unrhyw ddamweiniâu neu ddamweiniâu fu bron â digwydd ar y safle, ni waeth pa mor fach oeddent.
- Roedd defnyddio MSite ar gyfer y broses gynefino hefyd yn fuddiol. Roedd hyn yn caniatáu i ni weld cardiau cymhwysedd pawb a oedd yn gweithio ar y safle ar-lein.

## Oedi oherwydd COVID

Yr un elfen y mae angen rhoi sylw llawn iddi. Bu Rheolwr y Prosiect yn lliniaru'r oedi bron o'r diwrnod cyntaf – drwy gynllunio'r adnoddau i weithio shifftiau hirach a phenwythnosau er mwyn cyflawni ein nod. Gweithiwyd oriau ychwanegol ym misoedd Ebrill a Mai i liniaru cymaint ag y gallem.



## Ansawdd a gwella parhaus

O ganlyniad i drosglwyddo'r ystafelloedd gwely fesul cam, bu'n haws cyflawni'r broses ansawdd gan ein bod yn gwybod y safon a oedd i'w chyflawni. Unwaith yr oedd y grŵp cyntaf o ystafelloedd gwely wedi cael ei drosglwyddo a'i gymeradwyo'n derfynol, roedd y cleient, y contractwr a'r is-gontractwyr yn gwybod y safon uchel a oedd i'w chyflawni ar gyfer pob grŵp o ystafelloedd wely. Gan ein bod wedi cael y templed hwn wrth i'r grŵp cyntaf gael cymeradwyaeth derfynol, roeddent yn gallu trosglwyddo'r grŵp nesaf o ystafelloedd gwely yn fwy effeithlon gan mai ychydig iawn o fân broblemau oedd i'w nodi, os oedd rhai o gwbl.

Gydag un rheolwr MS dynodedig yn gofalu am y drefn ansawdd a chymeradwyo derfynol, bu modd inni gyflawni ein safonau uchel.



## Ymgysylltu â Disgyblion

Trefnwyd ymweliadau rheolaidd â'r safle gyda'r Brifysgol er mwyn i'r myfyrwyr a'r staff allu cerdded o amgylch y safle. Roedd hyn yn caniatáu i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr presennol weld y cyfleusterau newydd a oedd yn cael eu darparu, ac yn caniatáu i fyfyrwyr benderfynu a oeddent yn dymuno aros yn yr adeilad llety myfyrwyr hwn.

Ar ben hynny, sefydlwyd ystafell enghreifftiol yn gynnar yn y cyfnod adeiladu. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r cleient weld y cynnyrch gorffenedig a chadarnhau ei fod yn hapus gyda'r safon a oedd yn cael ei darparu. Roedd hyn hefyd yn fuddiol i'r myfyrwyr a oedd yn ymweld â'r safle, gan y gallent weld y cynnyrch derfynol o'r broses adeiladu.



## Ymgysylltu â'r Gymuned

- Wrth y wefan, mae blwch llythyrau gyda chi, sy'n caniatáu i'r gymuned godi unrhyw ymholiadau sydd ganddyn nhw ynglŷn â'r prosiect.
- Roedd gennym hefyd wefan ddwyieithog benodol ar gyfer y prosiect. Roedd yn rhoi diweddariadau misol ar gynydd, lluniau o'r safle a materion a oedd wedi cael eu codi. Roedd y wefan hon hefyd yn rhoi manylion tîm safle MS a'r is-gontractwyr a oedd yn cael eu defnyddio ar y prosiect.
- Roedd yr holl arwyddion ar gyfer y safle wedi cael eu harchebu a'u gosod gan gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg.
- Roedd gennym hefyd sticeri ar hetiau caled i'r rheini a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

## Rhodd tŷ gwydr

Roedd y tîm wrth eu bodd yn rhoi a gosod tŷ gwydr newydd sbon yn ysgol AAA, Coleg Ceredigion. Roedd yr ysgol yn hapus iawn â'r canlyniad.

*"Diolch eto am eich cefnogaeth. Bydd y myfyrwyr yn elwa'n fawr o hyn. Bydd y tŷ gwydr newydd yn galluogi'r myfyrwyr Mynediad Galwedigaethol i dyfu llyisiau ar gyfer eu rhandir yn y Borth, gwerthu blodau ar gyfer eu menter a darparu blodau i'r adran arlwygo i addurno byrddau."*

**Margaret Neville, Tiwtor Cwrs Mynediad Galwedigaethol**

## Go Wales

Mae tîm GO Wales ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiolchgar iawn i Morgan Sindall am gynnig profiad gwaith o safon i'n myfyrwyr ar lefel gradd. Mae prosiect Cyflawni drwy Brofiad Gwaith Go Wales yn helpu myfyrwyr prifysgol ifanc sy'n wynebu rhwystrau i gael gwaith ar lefel gradd. Mae'r prosiect yn eu cefnogi i drefnu cyfleoedd profiad gwaith o safon sy'n berthnasol i'w gradd a'u dyheadau gyrfa.


Mae Cameron Price yn fyfyrwr ym maes Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol ar ei drydedd flwyddyn. Buom yn trafod opsiynau gyrfa pan gawsom gyfarfod am y tro cyntaf, ac awgrymais leoliad gwaith Syrffewr Meintiau; roedd yntau yn frwdfrydig ynghylch hynny. Roedd Morgan Sindall ar fin dechrau adnewyddu Neuadd Pantycelyn, felly cysylltais â'u Rheolwr Cymunedol. Roeddwn i'n falch iawn pan atebodd yr Uwch Syrffewr Meintiau, Mike Kavanagh, gan gynnig wythnos o brofiad gwaith i Cameron ar y safle ym Mhantycelyn. Mwynhaodd Cameron ei wythnos yn fawr iawn, ond teimlai Mike fod mwy y gallai ei ddysgu o hyd ac awgrymodd fod Cameron yn dychwelyd am wythnos ychwanegol i ddatblygu ei sgiliau a'i wybodaeth ymhellach. Mae tîm GO Wales yn edrych ymlaen at weithio gyda Morgan Sindall yn dyfodol i gefnogi rhagor o fyfyrwyr



## Microwefan pwrpasol

Er mwyn i bawb gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar y prosiect, mae'r tîm wedi dylunio a lansio microwefan prosiect - gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb o ran cynnydd ar y prosiect, ynghyd â chipolwg ar weithgarwch buddsoddi yn y gymuned. Dyma'r microwefan ddwyieithog gyntaf i'r busnes ei lansio:

<http://www.pantycelynproject.wales/cy/>



*"Rydyn ni'n falch o fod wedi cwblhau gwaith ar brosiect sydd mor bwysig yn hanesyddol, ac wedi sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n ddiogel drwy gydol yr heriau sydd wedi codi yn sgil pandemig y coronafeirws sy'n parhau. Mae Pantycelyn yn un o adeiladau mwyaf eiconig y brifysgol ac mae'n chwarae rhan ddiwylliannol bwysig yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r brifysgol i sicrhau y bydd y neuadd ar ei newydd wedd yn darparu mwynderau golau a modern i genedlaethau o fyfyrwyr yn y dyfodol, tra'n cadw ei threftadaeth fel ased cenedlaethol i Gymru."*

Dyweddodd Rob Williams, cyfarwyddwr ardal Morgan Sindall Construction

